NEGESEUON ALLWEDDOL BWRDD DIOGELU OEDOLION GOGLEDD CYMRU

O'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher

6 Tachwedd 2019

- Croesawodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn ymwneud â gwelliannau arfaethedig i'r gwasanaeth. Ymhlith y rhain roedd un o'r uwch gynlluniau parafeddygol cyntaf i reoli cleifion yn y gymuned. Bydd y Bwrdd yn derbyn diweddariad pellach ar gynnydd mewn 6 mis.

- Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi bod yn cyflwyno i'r grwpiau darparu ymarfer rhanbarthol ynglŷn â'r diffyg atgyfeiriadau i'r gwasanaeth o Gymru. Eu nod yw i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ac amlygu'r ddyletswydd i gyfeirio a phryd ddylai hynny ddigwydd.

- Darparodd ASNEW (Gwasanaethau Eirioli Gogledd Ddwyrain Cymru) astudiaeth achos Canlyniadau Cadarnhaol oedd yn ymwneud â Gwasanaethau Eirioli yn gweithio gyda gwasanaethau statudol i atal cam-drin gŵr oedrannus yn ariannol.

- Bydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cael eu lansio ar 11 Tachwedd yng Nghaerdydd, byddant wedyn yn dod yn fyw, bydd ap ar gael i'w lawrlwytho. Digwyddiad lansio yng Ngogledd Cymru ar 14 Tachwedd yng Nghlwb Rygbi Rhyl, bydd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Julie Morgan) yn bresennol.

- Hefyd fe fu'r bwrdd yn trafod materion hyfforddiant o ran Staff Asiantaeth a sut i sicrhau eu bod wedi eu hyfforddi i'r safon ofynnol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru.